# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 03/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeiethasol a Llywodraeth Leol

### Pwysau Ariannol Ychwanegol

***9. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ymateb i'r pwysau ariannol ychwanegol sy'n wynebu llywodraeth leol. OAQ(3)1357(SJL)*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Bydd y gyllideb ddrafft ar 17 Tachwedd yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r pwysau ariannol ychwanegol sy'n wynebu llywodraeth leol. Bydd y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi ar 23 Tachwedd er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Byddaf yn cyhoeddi'r setliad terfynol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

### Iaith Arwyddion Prydain

***10. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gefnogaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhoi i annog defnyddio Iaith Arwyddion Prydain mewn ysgolion. OAQ(3)1376(SJL)* ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.***

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod Iaith Arwyddion Prydain fel iaith bwysig ynddi'i hun. Mae £2.7 miliwn wedi'i ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer BSL Futures. Nod y cynllun hwn yw cynyddu'r capasiti i addysgu Iaith Arwyddion Prydain a chofrestru o leiaf 30 o ddehonglwyr ychwanegol Iaith Arwyddion Prydain i weithio yng Nghymru.

### Fandaliaeth

**11. Paul Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â fandaliaeth. OAQ(3)1397(SJL)*

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid i bartneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â throsedd yn eu hardaloedd hwy, gan gynnwys fandaliaeth.

### Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

***12. Nerys Evans:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU. OAQ(3)1392(SJL)*

**Carl Sargeant:** Yr wyf wedi trafod trais domestig, y Mesur Plismona a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyda'r Ysgrifennydd Cartref. Yr wyf hefyd wedi cyfarfod â chyfarwyddwr rhanbarthol Asiantaeth Ffiniau'r DU i drafod ystod o faterion, gan gynnwys lles plant sy'n ceisio lloches a chynnwys ffoaduriaid yng Nghymru.

### Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

***13. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithrediad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. OAQ(3)1369(SJL)*

**Carl Sargeant:** Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn darparu gwasanaeth brys gwerthfawr i'r 10 awdurdod unedol yn ei ardal, gan dderbyn tua 44,000 o alwadau brys a mynychu tua 22,500 o ddigwyddiadau yn ystod 2009/10. Mae'r awdurdod yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a gynhwysir yn fframwaith cenedlaethol tân ac achub Cymru.

### Blaenoriaethau

***14. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol am y chwe mis nesaf. OAQ(3)1383(SJL)*

**Carl Sargeant:** Trwy gyfrwng nifer o strategaethau, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi awdurdodau lleol i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus y rheng flaen. Bydd hefyd yn chwilio am bob cyfle i sicrhau arbedion ac i hyrwyddo effeithlonrwydd ac arloesedd yn y sefyllfa ariannol heriol sydd ohoni.

### Effeithlon

***15. Andrew RT Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r mesurau y mae ei adran yn eu cymryd i fod mor effeithlon â phosib ar draws y portffolio. OAQ(3)1385(SJL)*

**Carl Sargeant:** Mae'r angen i'r adran a sefydliadau partner gyflawni arbedion go iawn yn ganolog i'r broses o osod y gyllideb. Mae'r adran wedi gwerthuso pob cyllideb linell wrth linell yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn nodi arbedion a chyfleoedd i symud adnoddau i feysydd sy'n flaenoriaeth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cymwysterau Galwedigaethol

***11. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymwysterau galwedigaethol. OAQ(3)1548(CEL)*

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cyfle i gael cymwysterau galwedigaethol yn cynyddu bob blwyddyn i ddiwallu'r angen am sgiliau sy'n hanfodol iddynt gyfrannu at ein heconomi. Yng Nghymru, mae pob un o'r llwybrau dysgu 14-19 yn cynnig opsiynau galwedigaethol. Mae'r opsiynau hyn yn dod yn fwyfwy poblogaidd ymhlith dysgwyr, gan eu bod yn eu helpu i ymbaratoi at fyd gwaith.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1518(CEL), yn ôl.*

### Tlodi Plant

***13. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi plant yng Nghymru. OAQ(3)1554(CEL)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Yn awr yn fwy nag erioed, mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae ein strategaeth a'n cynllun cyflawni draft ar dlodi plant, a gafodd eu cyhoeddi'n ddiweddar at ddibenion ymgynghori, yn creu fframwaith newydd ar gyfer lleihau tlodi yng Nghymru a gwella'r canlyniadau i blant a rhieni o deuluoedd incwm isel.

**Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant**

***14. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar wariant ar addysg yng Nghymru. OAQ(3)1510(CEL)*

**Leighton Andrews:** Yr ydym wedi ymrwymo i wneud cymaint ag y gallwn i amddiffyn buddsoddiad mewn ysgolion a sgiliau ac i gynnal hawliau cyffredinol. Bydd graddfa'r camau diogelu yn cael ei phennu wrth i ni ddatblygu ein cyllideb ddrafft, a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Tachwedd.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1513(CEL), yn ôl*